# Adroddiad Arolygu ar

**Tŷ Cwm Gwendraeth**

**Tŷ Cwm Gwendraeth**
**Heol Llan-non**
**Y Tymbl Uchaf**
**Llanelli**
**SA14 6BU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thŷ Cwm Gwendraeth

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | TŶ CWM GWENDRAETH LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn dynodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae pobl yn cael eu cynorthwyo i wneud y pethau sydd o bwys iddynt ac y maent yn eu mwynhau. Yn ystod y pandemig, mae mynediad i weithgareddau cymunedol wedi bod yn gyfyngedig. Mae pobl yn cael eu trin ag urddas ac mae eu dewisiadau personol yn cael eu parchu. Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys i sicrhau bod y lefel gywir o gymorth yn cael ei darparu ar yr amser cywir i ddiwallu anghenion cymhleth pobl. Mae amgylchedd a chynllun y gwasanaeth yn cynorthwyo pobl i fod mor annibynnol â phosib ac mae gwaith cynnal a chadw a gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud. Mae llywodraethu clir ar waith ac mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Mae prosesau sicrhau ansawdd a gynhelir gan yr unigolyn cyfrifol a rheolwyr yn arddangos y pwysigrwydd a roddir ar fonitro a gwella'r gwasanaeth i bobl.

## Llesiant

Anogir a chynorthwyir pobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'u gweithgareddau dyddiol. Mae'r cydlynydd gweithgareddau yn cynllunio ac yn gwerthuso gweithgareddau, gan sicrhau bod dewisiadau pobl a'u hoffterau yn ganolbwynt iddynt. Nid yw'r gwasanaeth wedi medru cael mynediad i'r gymuned yn ystod y pandemig i ymweld â theatrau, caffis, amgueddfeydd, digwyddiadau chwaraeon ac yn y blaen. Mae gan y gwasanaeth bwll hydrotherapi, campfa, a chlwb cymdeithasol / caffi ar y safle sydd ar gael i bawb. Mae ardal y clwb cymdeithasol / caffi yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer dathlu penblwyddi gyda theuluoedd gan fod ganddi ardal awyr agored hefyd.

Mae gan bobl reolaeth dros eu bywydau bob dydd. Gall pobl weld datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Arddangosir gwybodaeth am ddigwyddiadau i ddod yn y gwasanaeth fel y gall pobl ddewis eu mynychu os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn ogystal â chyfarfodydd personol i bobl nad ydynt am ymuno mewn cyfarfod grŵp. Roedd tystiolaeth o hyn yn yr adolygiad o ansawdd y gofal / yr adroddiadau ar ansawdd y gofal ac o ymweliadau'r unigolyn cyfrifol.

Mae diogelwch y bobl sy’n byw yn y gwasanaeth yn cael ei gynnal i’w hamddiffyn ac i leihau risg. Roedd awdurdodiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith. Dilynwyd y protocolau cywir ble roedd angen penderfyniadau i gynorthwyo budd pennaf pobl. Roedd asesiadau risg yn cynorthwyo unrhyw newidiadau sydd eu hangen i amgylchedd y bobl, fel gwelyau a chyfarpar arbenigol yr oedd eu hangen ar bobl i gynnal eu llesiant. Roedd pobl yn ddiogel rhag ymwelwyr anawdurdodedig yn dod i mewn i'r adeilad, am fod yn rhaid i’r holl ymwelwyr ganu cloch drws y ffrynt cyn cael mynediad ac mae'n ofynnol iddynt ddangos tystiolaeth o ganlyniad prawf llif unffordd negatif, cofnodi eu tymheredd a chwblhau'r llyfr ymwelwyr wrth ddod i mewn ac wrth adael. Mae gan y rheolwr bolisi drws agored, a gwelsom fod ymwelwyr yn hapus i fynd at y rheolwr ac aelodau staff eraill. Roedd y rheolwr a'r holl staff gofal yn dangos bodlonrwydd i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl. Cwblheir hysbysiadau i asiantaethau perthnasol yn ôl y gofyn, ac roedd hyfforddiant diogelu yn gyfredol i'r holl staff. Mae hyn yn dangos bod y bobl yn ddiogel ac wedi eu diogelu rhag niwed cyn belled ag y bo modd.

## Gofal a Chymorth

Gall pobl deimlo’n hyderus fod cynllun gofal cyfredol a chywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.  Cwblheir cyn-asesiadau cyn i bobl symud i mewn i'r gwasanaeth, gan roi ystyriaeth i farn, hoffterau/casbethau a hanes pobl. Mae cofnodion gofal electronig wedi eu trefnu’n dda ac yn rhoi canllawiau clir ar gyfer gweithwyr gofal ar sut y dylid darparu gofal a chymorth i unigolion. Mae tystiolaeth o ddull amlasiantaethol yng nghofnodion gofal pobl; gwelsom ganllawiau oddi wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr nyrsio, arbenigwyr ymddygiad cadarnhaol, a therapyddion lleferydd ac iaith.

Mae gweithwyr gofal yn treulio amser yn rheolaidd gyda phobl er mwyn tawelu eu meddwl pan fyddant yn ofidus neu wedi cynhyrfu. Darperir gofal yn ôl cynlluniau personol unigol pobl. Mae'r staff yn rhyngweithio yn gadarnhaol ac yn barchus gyda phobl a'u teuluoedd. Mae cofnodion gofal yn cael eu hadolygu yn unol â rheoliadau, neu yn fwy aml pan fydd anghenion cymorth yn newid. Gwahoddir pobl a'u cynrychiolwyr i fod yn rhan o adolygiadau o'u gofal ynghyd â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.  O ganlyniad, mae pobl yn teimlo y gwrandewir arnynt ac y gallant ddisgwyl cael y gofal a chymorth cywir ar yr amser cywir, yn y ffordd y maent yn dymuno eu cael, i ddiwallu eu hanghenion. Pan wnaethom siarad â phobl, dywedasant wrthym, *“Rydw i wedi bod yn llawer o lefydd, ond mae fan hyn yn wahanol: maent yn gwrando arnaf ac yn fy helpu i ddelio â phethau. Maent yn wych, gan y gallaf fod yn boen rwy'n gwybod, ond maent yn fy nghefnogi ac yn gwneud pethau’n well. Mae'r bwyd yn wych hefyd – maent yn gwybod beth sydd ei angen arnaf i’w fwyta i helpu fy nghyflyrau.”* Dywedodd unigolyn arall, *“Maent yn dda yma, pobl hyfryd, maent yn fy helpu i wneud llawer. Maent yn gwybod beth ydw i’n ei hoffi.”*

Mae gan y gwasanaeth broses gyfredol ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Mae cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cynnwys ffotograff o bob unigolyn a gwybodaeth ofynnol. Mae’r holl feddyginiaethau yn cael eu storio mewn cypyrddau dan glo yn yr ystafelloedd meddyginiaeth dan glo ym mhob un o'r gwasanaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir, sy’n cael eu storio ar wahân. Mae system glir ar gyfer archebu, storio a gwaredu meddyginiaeth. Cofnodir y tymheredd yn yr ystafell feddyginiaeth bob dydd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda gyda chyfleusterau a chyfarpar i ddiwallu anghenion y bobl. Mae gan y gwasanaeth asesiadau risg tân a thrydan priodol. Mae archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd, gan gynnwys rheoli heintiau, arlwyo, ac iechyd a diogelwch. Mae cynllun y gwasanaeth, gan gynnwys y coridorau a drysau llydan, yn helpu pobl gyda llai o symudedd neu sy'n defnyddio cadair olwyn i symud o gwmpas yr adeilad yn rhwydd. Mae'r gwasanaeth yn gynnes a gall pobl gwrdd a chymdeithasu gyda ffrindiau a theulu mewn ystod o ardaloedd tawel neu gymunol y tu fewn ac y tu allan i'r adeilad. Mae pobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd dyrchafol sy'n helpu pob unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Mae cynlluniau am gynnal gwaith gwella i ardaloedd o'r gwasanaeth a gafodd eu nodi gan yr unigolyn cyfrifol yn ystod ymweliad hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys atgyweirio/ailosod rhai o'r canllawiau cydio ar hyd y coridorau gan eu bod nhw'n rhydd, cynlluniau i wella ardaloedd yn y gerddi er mwyn cael ardaloedd plannu a chadw ieir, a mwy o ardaloedd i bobl fynd allan a mwynhau.

Mae cofnodion gofal yn cael eu storio'n ddiogel yn electronig ac mae gweithwyr gofal yn cael gweld y rhain drwy ddefnyddio cyfrifiaduron neu ar lechenni llaw.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith drwy'r holl wasanaeth. Roedd yr holl staff yn gwisgo  cyfarpar diogelu personol ac roedd gorsafoedd cyfarpar diogelu personol ym mhob rhan o'r cartref. Mae polisi atal a rheoli heintiau clir ar waith ac mae'n cael ei adnewyddu a'i ddiweddaru wrth i'r canllawiau newid.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae pobl yn cael cymorth oddi wrth staff sydd â'r wybodaeth, cymwyseddau, sgiliau a chymwysterau gofynnol. Mae'r staff yn cael goruchwyliaeth un-i-un bob tri mis. Mae'r matrics goruchwylio yn dangos y sesiynau goruchwylio a gwblhawyd ac a gynlluniwyd i'r holl staff. Mae'r cofnodion goruchwylio a welwyd yn fanwl ac yn dangos anghenion hyfforddi a/neu unrhyw gymorth sydd ei angen. Dywedodd staff wrthym, *"Rydym yn cael ein cefnogi'n dda gan y rheolwyr – maent yn wych, ffantastig. Maent yn ein helpu os oes angen. Alla i ddim eu canmol nhw'n ddigon, y ddau ohonynt." "Mae'r unigolyn cyfrifol yn cofio enw pawb ac yn dod i sgwrsio gyda ni a'r preswylwyr, yn gofyn sut ydyn ni ac yn ein diolch. Rydw i'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi fel unigolyn."* Ac yn olaf, *"Rydw i'n cael fy narparu gyda chyfleoedd ychwanegol yn fy rôl bresennol i baratoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol i wneud cynnydd. Mae'r cymorth a'r cyfle i ddatblygu yma yn wych. Mae'r drws ar agor ar bob adeg i unrhyw un fynd i mewn i gael sgwrs gyda'r rheolwyr am gyngor neu unrhyw beth."*

Mae'r matrics hyfforddi ar gyfer yr holl staff yn dangos bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn gyfredol. Mae hyfforddiant sefydlu staff ac anghenion hyfforddi penodol yn gyfredol. Dywedodd unigolyn wrthym, *"Mae'r hyfforddiant, datblygu a chyfleoedd yma yn wych."* Mae'r staff y siaradwyd â nhw yn gadarnhaol am y cymorth oddi wrth y rheolwr a'r tîm. Mae ffeiliau staff yn dangos bod gwiriadau a chliriadau priodol ar waith ar gyfer recriwtio staff.

Gellir sicrhau pobl fod systemau ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth.
Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd i fonitro perfformiad. Gwnaethom edrych ar yr ymweliadau diweddaraf a'r adroddiadau monitro ansawdd. Dangosodd y rhain fod yr unigolyn cyfrifol yn cyfrannu at y gwaith o gynnal y gwasanaeth a bod ganddo drosolwg da o weithrediadau bob dydd. Ar adeg yr arolygiad, roedd ymweliad yr unigolyn cyfrifol a'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn y broses o gael eu cwblhau. Rydym wedi gweld yr adroddiad ac mae'n drwyadl iawn. Mae cynlluniau gweithredu clir ar waith ac mae'r holl gamau gweithredu blaenorol wedi cael eu cwblhau a'u llofnodi.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 25/01/2022